

# Polisi Dyfarnu Grantiau a'r Gymraeg

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw ariannwr cymunedol mwyaf Cymru. Rydym yn dyfarnu 40% o arian y Loteri Genedlaethol a godir at achosion da sy'n cefnogi dibenion iechyd, addysg, yr amgylchedd ac elusennol ledled y DU, a ni yw ariannwr cymunedol mwyaf Cymru. Ers i'r Loteri Genedlaethol gael ei sefydlu 25 mlynedd yn ôl, mae'r Loteri Genedlaethol wedi codi £973.5 miliwn i 20,671 o achosion da ledled Cymru. Rydym o'r grêd pan fydd pobl yn arwain, bydd cymunedau'n ffynnu. Mae pobl yn deall yr hyn sydd ei angen yn eu cymunedau'n well na neb. Rydym yn gwranddo, cydweithio ac yn ariannu i alluogi pethau da ddigwydd.

Ers 1999 rydym wedi buddsoddi £86 miliwn mewn gweithgareddau sy'n galluogi defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru.

## Ein rhaglenni ariannu

Mae'r mwyafrif o'r rhaglenni ariannu yr ydym yn eu gweithredu yn raglenni ariannu agored sydd heb ddyddiad cau ymgeisio ar eu cyfer. Ein dwy prif raglen ariannu yw:

- **Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol:** Ein rhaglen grantiau bach. Gall grant gan y Loteri Genedlaethol helpu gwneud gwahaniaeth yn eich cymuned. Mae Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn cynnig grantiau rhwng £300 a £10,000 i gefnogi'r hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau. Byddwn yn ariannu mudiadau gyda syniadau gwych am brosiect a fydd yn:
  - Siapio'r lleoedd a lleoliadau sy'n bwysig i gymunedau
  - Dod â mwy o bobl ynghyd ac adeiladu cysylltiadau cryf o fewn ac ar draws cymunedau
  - Galluogi mwy o bobl i gyflawni eu potensial trwy weithio i ddelio â phroblemau yn y cam cynharaf posib.
- **Pawb a'i Le:** Mae Pawb a'i Le yn cynnig grantiau rhwng £10,001 a £500,000 ar gyfer prosiectau sy'n gweld pobl a chymunedau'n gweithio ar y cyd a defnyddio eu cryfderau i gael effaith gadarnhaol ar y pethau sydd fwyaf pwysig iddyn nhw.
- Yn ogystal â'r rhaglenni hyn, o bryd i'w gilydd byddwn yn lansio rhaglen strategol sydd â dyddiad cau penodol ar gyfer derbyn ceisiadau. Bydd y rhaglenni hyn fel arfer yn cael eu datblygu yn sgil adborth gyda'n cwsmeriaid a'u budd-ddeiliaid ag yn ateb galw penodol mewn cymunedau ledled Cymru. Enghraifft o'r rhaglenni hyn yw Trosglwyddo Asedau Cymunedol, Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio, Y Rhaglen Wledig a Chymunedau Arfordirol. Mae rhaglenni ariannu sy'n cael eu gweithredu ledled Prydain hefyd yn agored i ymgeiswyr o Gymru. Am wybodaeth cyfredol ar y rhaglenni ariannu sydd gennym ar agor ar y funud, ewch i'n gwefan:  
[www.cronfagymunedolyg.org.uk](http://www.cronfagymunedolyg.org.uk)

## Beth mae ein safonau Cymraeg yn ddweud

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi bod yn gweithredu Safonau Iaith ers Ionawr 2017 ac rydym yn falch iawn o'n gwasanaeth dwyieithog i'n cwsmeriaid a'n ethos Gymreig yng Nghymru. Yn y maes dyfarnu grantiau, Safon 90 yw'r un berthnasol:

**Safon 90:** Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant— (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Gwasanaeth Dwyieithog

Mae gwybodaeth am a deunyddiau ymgeisio ar gyfer pob un o'n rhaglenni grantiau sy'n gweithredu yng Nghymru neu ar draws Prydain ar gael yn gyfan gwbl, ac yn gydradd, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae modd ymgeisio drwy ein porth arlein neu, ar ffurfleni arlein neu drwy lenwi copi caled o'n ffurflen yn un o'r ddwy iaith, gallwch ofyn ini gyfathrebu gyda chi yn y Gymraeg neu'r Saesneg ac fe gaiff eich cais ei asesu yn yr iaith a'i dderbyniwyd, gan nad ydym yn cyfieithu ceisiadau a ddaw i mewn.

## Y Gymraeg o fewn y broses ymgeisio

Nid oes gan y Gronfa raglen ariannu benodol ar gyfer prosiectau Cymreig ond yn hytrach, mae ein holl raglenni, boed yn raglenni Cymru neu Prydeinig, yn agored i bob sefydliad ymgeisio iddynt. Mae Cymry Cymraeg yn byw mewn cymunedau daearyddol a chymunedau o diddordeb ledled Cymru ac felly mae'n bwysig fod mynediad ganddynt i bob un o'n rhaglenni ariannu.

Mae'r Gymraeg yn rhan o'r broses ymgeisio am arian grant ar sawl cam.

- Cyn ymgeisio, bydd gofyn i bob ymgeisydd ddarllen ein canllaw '*Sut i reoli eich prosiect yn ddwyieithog*' [https://www.tnlcommunityfund.org.uk/media/BLF18\\_055\\_Managing-your-project-bilingually-2019-w.pdf?mtime=20190314144610](https://www.tnlcommunityfund.org.uk/media/BLF18_055_Managing-your-project-bilingually-2019-w.pdf?mtime=20190314144610) sy'n rhoi arweiniad ar yr hyn a ddisgwyliwn i'n prosiectau gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoddir cyngor hefyd am yr hyn y dylid ei ystyried ei gynnwys o fewn cyllideb y prosiect e.e costau cyfieithu a chostau dylunio gwefan ddwyieithog

- Rydym yn croesawu ceisiadau sydd wedi eu cwblhau yn y Gymraeg neu'r Saesneg ond gofynnwn hefyd ym mha iaith yr hoffai pob cyswllt gyfathrebu gyda ni gan roi'r opsiwn i bob ymgeisydd ymgeisio i ni mewn un iaith ond siarad â ni mewn iaith arall.
- Bydd pob cais Cymraeg neu gais Saesneg ble mae un o'r cysylltiadau wedi nodi Cymraeg fel iaith cyfathrebu yn cael ei asesu gan Swyddog Ariannu Cymraeg. Ni fyddwn byth yn cyfieithu ceisiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer cael eu hasesu a bydd y broses o asesu a rheoli grantiau yn digwydd yn naturiol ddwyieithog.
- O fewn ein ffurflen cais am arian, mae paragraff penodol sy'n trafod Mesur y Gymraeg a pwysigrwydd prosiectau i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Disgwyliwn i ymgeiswyr egluro sut y byddant yn cwrdd a gofyn y Mesur a'n Safonau iaith ni wrth ateb y ffurflen a bydd ein Swyddogion Ariannu yn gwirio hynny yn y broses asesu. Y testun o fewn ein ffurflenni cais yw:

### *Mesur y Gymraeg*

*O dan Fesur y Gymraeg 2011 mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru yn ogystal a mudiadau sy'n derbyn ariannu gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys arian gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, fodloni gofynion grant y Gronfa wrth ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru. Gallwch ddarllen mwy o wybodaeth am ein Safonau Cymraeg a sut i gydymffurfio a'n gofynion o ran y Gymraeg yma*

[cronfagymunedolyg.org.uk/iaithgymraeg](http://cronfagymunedolyg.org.uk/iaithgymraeg).

- Mae gofyn i bob ymgeisydd lenwi ein ffurflen 'Monitro Buddiolwyr' wrth ymgeisio ac, yn ddibynnol ar y grant maent wedi ei dderbyn, ar ddiwedd y prosiect hefyd. Diben y ffurflen yw rhoi gwybodaeth ini am y bobl ar lawr gwlad cymunedau Cymru sy'n cael budd o brosiectau a'i hariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae un o'r cwestiynau yma yn gofyn am sgiliau Cymraeg buddiolwyr ein prosiectau. Dyma'r cwestiwn a ofynnir:

**13. Nodwch faint o bobl a fydd yn elwa o'ch prosiect sy'n siarad Cymraeg trwy dicio un o'r blychau isod**

Pawb Mwy  na hanner  Llai na hanner  Neb

- Mae Telerau ac Amodau grant yn ddogfen gyfreithiol y mae angen i bob deilydd grant ei llofnodi am ymrwymo iddi cyn y telir yr arian iddynt. Mae gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac ystyried y Gymraeg yn ofalus trwy waith y prosiect yn amod cyfreithiol ar bob prosiect. Dyma eiriad y cymal ar y Gymraeg:

*1.19 os yw eich prosiect i'w gyflwyno yng Nghymru, galluogi pobl i gymryd rhan yn Gymraeg a Saesneg, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal. Mae'n rhaid i siaradwyr Cymraeg fedru cyrchu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg ac mae'n rhaid creu pob deunydd yn ddwyieithog.*

## **Ein disgwyliadau**

Fel dosbarthwr arian cyhoeddus, rydym yn rhoi rhai disgwyliadau ar y prosiectau a ariannwn. Mae'r disgwyliadau hyn yn cynnwys:

- Y gallu i weithredu yn ddwyieithog a bod yn agored a hygyrch i siaradwyr Cymraeg a di Gymraeg.
- Peidio a thrin y Gymreg yn llai ffafriol na'r Saesneg (yn cynnwys sicrhau bod deunyddiau, gwybodaeth a gwasanaethau ar gael yn Gymraeg)

- Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (yn cynnwys darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithgareddau sy'n cael eu hariannu)

## Disgwyliwn i'n prosiectau:

- Ystyried y Gymraeg cyn cychwyn eu cais ac ystyried ba anghenion fydd gan y prosiect i weithredu yn ddwyieithog neu yn Gymraeg
- Swyddi: Os yw eich prosiect yn ariannu swyddi staff, bydd angen i chi ystyried a oes angen siaradwyr Cymraeg arnoch i lenwi y swyddi er mwyn i fuddiolwyr eich prosiect allu cael mynediad at eich gwasanaeth yn eu hiaith gyntaf neu ddewis iaith. Mae rhai swyddi a fydd yn amlwg i fod angen siaradwyr Cymraeg ar eu cyfer e.e swyddi ble bydd angen gweithio gyda chymunedau sydd â nifer uchel o siaradwyr Cymraeg neu swyddi ble bydd angen mynd mewn i ysgolion i weithio gyda phlant ond mae'n ystyried bwysig gofynion ieithyddol ar gyfer bob swydd. Os bydd prosiect yn cyflogi 4 swydd yr un fath er enghraifft, bydd disgwyl i gyfradd o'r swyddi hynny fod yn swyddi ble mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol.
- Angen ieithyddol: Mae angen i brosiectau hefyd ystyried beth yw angen ieithyddol buddiolwyr eu prosiect wrth benderfynu ar sgiliau ieithyddol swyddi gan fod adegau pan fo angen iaith yn mynd i fod yn bwysicach na dewis iaith. Enghreifftiau o hyn yw prosiectau sy'n gweithio gyda plant bach, pobl â dementia neu bobl sy'n delio â phroblemau iechyd meddwl. Gall delio â rhai materion neu sefyllfaoedd anodd a sensitif fod yn her ychwanegol os bydd disgwyl i bobl wneud hynny yn eu hail iaith.
- Dylid hysbysebu pob swydd, os yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol ai peidio, yn ddwyieithog bob amser. Os gall prosiectau ddenu siaradwyr Cymraeg i unrhyw swydd, yna gorau oll.
- Bydd angen i brosiectau ddylunio ag argraffu pob deunydd gwybodaeth am eich prosiect yn ddwyieithog fel bod y wybodaeth yr un mor hawdd ei weld a'i ddarllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Am arweiniad ar sut i ddylunio yn dda yn ddwyieithog, gweler arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar y pwnc: <http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu/SiteCollectionDocuments/Fersiynau%20dwyieithog/Bilingual%20Design%20Guide%202018.pdf>
- Os bydd arian y Loteri Genedlaethol yn talu am wefan newydd yna bydd angen i'r wefan honno fod yn wefan gwbl ddwyieithog ble bydd pob tudalen ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd modd newid o un iaith i'r llall yn rhwydd. Os nad ydym yn ariannu gwefan, bydd angen i dudalen we y sefydliad sy'n hyrwyddo y prosiect a'i ariennir gan y Loteri Genedlaethol fod yn ddwyieithog.
- Bydd angen i brosiectau ddefnyddio ein logo dwyieithog ar bob amser wrth hyrwyddo eu prosiect a hyrwyddo eu hunain ar gyfryngau cymdeithasol ble bynnag fo hynny yn bosibl gan ein tagio ni #crongymylg

## Y broses asesu:

Cyn i ymgeisydd wneud cais am arian gan y Gronfa, mae'n bosibl y byddant wedi cael sgwrs gyda ni eisoes am eu syniad prosiect ac efallai y bydd ein gofynion o ran y Gymraeg wedi cael eu trafod yn barod.

Unwaith y bydd cais wedi ei dderbyn, bydd ein Swyddogion Ariannu yn edrych ar yr atebion i brif gwestiynau'r ffurflen am wybodaeth am y Gymraeg i ystyried a yw'r grŵp wedi ystyried anghenion ieithyddol cymuned eu prosiect yn ddigonol. Yn benodol byddant yn ystyried:

- A yw'r sefydliad yn dangos yn glir eu bod yn deall neu wedi ymchwilio i ddemograffig ieithyddol eu hardal/maes o waith. Byddwn yn gwirio hyn yn benodol gyda sefydliadau sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru ond a fydd yn cyflwyno gwasanaethau yng Nghymru. Os nad yw prosiect yn glir am hyn, byddwn yn argymhell iddynt edrych ar ystadegau'r cyfrifiad neu i gysylltu â'r Fenter Iaith leol.
- A yw'r sefydliad wedi ystyried gofynion ieithyddol eu cymuned wrth lunio eu cais a'u prosiect h.y a yw unrhyw swyddi sydd wedi eu hariannu yn swyddi ble mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ac a yw unrhyw hysbysebion swydd yn adlewyrchu'r sgiliau angenrheidiol yn glir
- A yw'r prosiect yn cynnig cyfle cyfartal i bawb yn y gymuned gymryd rhan yn y gweithgareddau/gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac a yw'r gwasanaeth dwyieithog hynny yn cael eu hysbysebu - ni fyddai prosiect sydd yn rhwystro defnydd o'r Gymraeg yn cael eu hariannu gennym gan nad ydynt yn agored i bawb ond o bryd i'w gilydd, bydd prosiectau sydd yn cael anawsterau wrth ddarparu gwasanaeth llawn drwy gyfrwng y Gymraeg, megis gwasanaethau sy'n gofyn am arbenigedd benodol, yn cael eu hariannu.
- Yn aml, bydd prosiectau a ariannwn yn hybu defnydd cymunedol o'r Gymraeg ac yn cyfrannu at y Strategaeth Cymraeg 2050 ac fe groesawn geisiadau am grant gan unrhyw fudiad sydd am gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Cysylltwch â ni os hoffech fanylion rhai o'r prosiectau yr ydym eisoes wedi eu hariannu sy'n hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.
- Os nad yw sefydliad wedi darparu ateb digonol i'r cwestiwn ar y Gymraeg neu os nad ydynt yn siŵr o'n gofynion, byddant yn cael eu rhoi mewn cysylltiad gydag aelod o Dîm Cymraeg y Gronfa a fydd yn darparu cyngor a chefnogaeth.
- A yw'r prosiect wedi cynnwys costau gweithredu yn ddwyieithog yn eu cyllideb megis costau cyfieithu neu gostau dylunio gwefan. Rydym yn argymhell y dylai pob cais gynnwys o leiaf £500 yn eu cyllideb ar gyfer hyn ond gall y swm sydd ei angen amrywio o brosiect i brosiect.

## Ar ôl llwyddo:

### Trefniadau monitro / cefnogi

Bydd cydymffurfiaeth â'n amod grant ar y Gymraeg yn cael ei fonitro yn yr un modd â'n amodau grant eraill, a byddwn yn disgwyl gweld tystiolaeth o'r gwaith yr ydych wedi ei wneud i sicrhau fod y prosiect ar gael yn ddwyieithog ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy fywyd y prosiect.

Gall beidio a chwrdd â'n amod gael effaith negyddol ar eich grant presennol â ni yn ogystal ag unrhyw geisiadau yn y dyfodol.

Os hoffech unrhyw gefnogaeth gyda cynnwys y Gymraeg yn eich prosiect a'ch gweithgareddau, cysylltwch â Thîm Cymraeg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn [Cymorth.cymraeg@cronfagymunedolyg.org.uk](mailto:Cymorth.cymraeg@cronfagymunedolyg.org.uk)

## Dathlu gyda'ch cymuned

Dylech rannu'r newyddion da gyda'ch cymuned a gyda'ch AS lleol:

- [Dywedwch wrth y byd am eich arian trwy gyfryngau cymdeithasol](#)
- [Cysylltwch gyda'ch gwasg leol](#)
- [Lawrlwythwch ein logo i ddweud wrth bobl am eich arian gan y Loteri Genedlaethol](#)
- [Archebwch blaciau, sticeri, baneri am ddim a mwy](#)

Rydym yn eich annog i barhau i ddweud wrth bawb am y gwahaniaeth mae eich prosiect yn ei wneud trwy gydol cyfnod eich arian.

Er mwyn sicrhau fod pob prosiect yn deall ein gofynion o ran y Gymraeg, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Adran Hybu Comisiynydd y Gymraeg i gynnal hyfforddiant i'n prosiectau.

Bydd sesiynau hyfforddiant yn cael eu cynnig i bob un o'n deiliaid grant sydd wedi derbyn grant canolig a mawr gennym ac i'r rhai sydd wedi derbyn dros £8,000 gan ein rhaglen grantiau bach. Cynhelir y sesiynau bedair gwaith y flwyddyn mewn pedwar lleoliad gwahanol yng Nghymru.

## Tendrau:

Mae rheolau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol o ran ennill tendr yn dilyn yr un rheolau asesu ag uchod.

Ym mhob dogfen dendr ar gyfer tendrau Cymreig neu Brydeinig, bydd y testun isod yn cael ei gynnwys yn y dogfennau:

## Testun i'r PQQ'S Cymraeg:

Yn unol â Safonau Cymraeg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, os bydd eich prosiect / gwasanaeth ar gael yng Nghymru, mae'n rhaid i chi alluogi pobl i gymryd rhan yn Gymraeg a Saesneg, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal. Mae'n rhaid i siaradwyr Cymraeg fedru cael mynediad i wybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg ac mae'n rhaid cynhyrchu'r deunyddiau i gyd yn ddwyieithog.

Yn ddibynnol ar ofynion a natur y tendr, gellid newid y testun uchod fel bo angen.

